CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a Gwasanaethau Digidol

2018-2022

# Cynnwys


Cynnwys ..... 2
Cyflwyniad ..... 3
Ysgogwyr Allanol ..... 3
Ysgogwyr Mewnol ..... 4
Amcanion Allweddol ..... 7
Trafodion Digidol ..... 7
Partneriaeth Ddigidol ..... 8
Data Clyfar ..... 9
Dylunio ar gyfer y Cwsmeriaid ..... 10
Cynhwysiad Digidol ..... 11
Staff Digidol ..... 12
Technoleg Ddigidol ..... 13


| | |
|---|---|
| Teitl y Ddogfen | Strategaeth TGCh a Gwasanaethau Digidol 2018-2022 |
| Statws y Ddogfen | Drafft Cychwynnol gan Bennaeth TGCh a Gwasanaethau Cwsmeriaid |
| Fersiwn | Terfynol |
| Dyddiad Cyhoeddi | 27/03/2018 |
| Paratowyd gan | Arwyn Morris |

# Cyflwyniad

Nod y Strategaeth hon yw manylu ar y cyfeiriad a'r cynlluniau strategol lefel uchel ar gyfer yr amrywiaeth lawn o wasanaethau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) a Digidol ar gyfer y pum mlynedd nesaf (2018-2022).

Bydd y Strategaeth yn amlinellu cynllun Cyflawni Digidol sy'n dangos sut y bydd y Cyngor yn rhyngweithio â'i gwsmeriaid i ddarparu gwasanaethau electronig lle y bo'n bosibl, gan roi cyfle i gwsmeriaid dalu drwy ddefnyddio cardiau credyd/debyd, gofyn am wasanaeth trwy ddefnyddio ffurflen electronig, a chyfathrebu trwy gyfryngau digidol (y cyfryngau cymdeithasol, ebost, negeseua uniongyrchol ac ati).

Mae'r Strategaeth yn dangos y rôl sydd gan TGCh i'w chwarae fel un o'r offer rheoli sy'n galluogi'r Cyngor i wireddu ei weledigaeth trwy gyflawni'n llwyddiannus Strategaeth Gorfforaethol ac Amcanion Llesiant y Cyngor.

Mae TGCh yn sail i allu'r Cyngor i gyflawni'n llwyddiannus yn erbyn ei agenda Trawsnewid. At hynny, bydd cael mwy o wasanaethau digidol yn helpu'r Cyngor i fod yn fwy effeithlon ac yn rhoi mwy o gyfleoedd i'r cyhoedd gwblhau trafodion yn electronig a fydd yn lleihau costau ac felly'n cyfrannu at gyrraedd y targedau arbedion a nodir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

## *Ysgogwyr Allanol*

Yr ysgogwyr allanol sy'n cael dylanwad uniongyrchol ar gyflawni'r Strategaeth TGCh a Gwasanaethau Digidol yw:

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015**
    - Gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.
- **Fframwaith Cymhwysedd Digidol**
    - Mae sgiliau cymhwysedd digidol yn chwarae rôl bwerus ym mywydau plant a phobl ifanc. Mae'r defnydd cymwys a chreadigol o'r sgiliau hyn yn hanfodol ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.
- **Darparu Fframwaith Cymru Ddigidol**
    - Mae technolegau digidol a gwasanaethau ar-lein wedi newid sut rydym yn byw ac yn chwarae rhan fawr yn ein bywydau. Trwy sicrhau bod pawb yng Nghymru â mynediad i dechnolegau digidol, rydym yn gweithio i greu cymdeithas ac economi fwy clyfar a chysylltiedig.
    - Mae hyn yn golygu mwy na dim ond gwella mynediad ffisegol i'r rhyngrwyd. Mae hefyd yn golygu:
        - sicrhau bod gan bawb y sgiliau i ddefnyddio technoleg ddigidol
        - gwella gwasanaethau cyhoeddus ar-lein
        - darparu cysylltedd cyflymach â'r rhyngrwyd
        - gwella signal ffonau symudol

- **Deddfau Rheoli Gwybodaeth**
    - Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol
    - Rhyddid Gwybodaeth

## *Ysgogwyr Mewnol*

Yr ysgogwyr mewnol a fydd yn cael dylanwad uniongyrchol ar gyflawni'r Strategaeth yw:

**Y Blaenoriaethau Corfforaethol ar gyfer Ceredigion yw:**

1. Hybu'r Economi
    - Awdurdod lleol bywiog gyda gweithlu hyblyg ac aml-fedrus.
    - Bod yn ardal sy'n fwyfwy bywiog a llwyddiannus yn economaidd gyda gweithlu dwyieithog â sgiliau uchel, a chyfleoedd cyflogaeth o safon uchel gynyddol.
    - Gwella ffyniant personol o enillion cyflogaeth.
    - Perthynas weithio agosach rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat.
    - Llwybrau cyflogaeth uniongyrchol rhwng sefydliadau Addysg Uwch a'r Cyngor.
    - Bydd gan Geredigion y seilwaith i gefnogi economi sy'n tyfu.
2. Ymchwilio i Ddyfodol Pobl
    - Proffil oedran â phoblogaeth gynaliadwy.
    - Bydd mwy o gyfleoedd gan ddinasyddion Ceredigion i ddatblygu eu sgiliau corfforol, deallusol a chymdeithasol i arwain bywydau actif ac iach.
    - Bydd dinasyddion Ceredigion yn barod i wireddu eu potensial ym mywyd economaidd a chymdeithasol y sir.
    - Parhau i fod yn gartref bywiog ar gyfer iaith a diwylliant Cymru.
    - Bydd gan ddinasyddion Ceredigion fynediad i amrywiaeth o raglenni cysylltiedig ag iechyd ac ymyraethau ar gyfer pob sector yn ein cymuned, gan dargedau'r rhai sydd â'r risg mwyaf.
3. Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd
    - Bydd gwell ansawdd bywyd gan ddinasyddion o bob oedran.
    - Rhwydweithiau cymorth gwell i deuluoedd a'r rhai sydd mewn angen ar draws y sir.
    - Llesiant ac iechyd gwell trwy fabwysiadu ymyraethau effeithiol.
    - Bydd rhwydweithiau sefydledig o grwpiau gwirfoddol a chymunedol ar draws y sir sy'n darparu cymorth ataliol strategol, gan felly cynyddu gwydnwch y gymuned a gofal cymdeithasol cynaliadwy.
    - Gwell dewis ac ansawdd tai lleol.
4. Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol
    - Safon uchel o stiwardiaeth amgylcheddol a bioamrywiaeth.

- Gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at fynd i'r afael ag achosion a lleihau effeithiau newid hinsawdd a niwed amgylcheddol.
- Bydd cymunedau Ceredigion yn dangos cydnerthedd gwell yn wyneb heriau amgylcheddol a chymdeithasol.
- Byddwn yn sicrhau diogelwch parhaus trigolion mewn ardaloedd arfordirol trwy sicrhau buddsoddiad pellach.

**Themâu trawsbynciol:**

Fel Cyngor rydym yn ymrwymedig i gyflawni amrywiaeth o themâu trawsbynciol a fydd yn gwella perfformiad ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.

- Dwyieithrwydd – Rydym yn sicrhau bod pob maes gwasanaeth yn darparu gwasanaeth hollol ddwyieithog a bod pob aelod o staff yn cael ei annog i ddatblygu ei sgiliau ieithyddol yn y ddwy iaith.
- Addas i'r diben – Mae ein strwythurau staffio yn hyblyg ac yn effeithiol. Fodd bynnag, byddwn yn parhau â'r rhaglen ad-drefnu corfforaethol i ganoli'r holl dimau gwasanaeth cymorth.
- Cynaliadwyedd – Mae llwyddiant y pum mlynedd flaenorol wedi sicrhau bod y Cyngor yn arwain y sector o ran rheoli carbon ac ailgylchu. Ein bwriad yw parhau yn ein hymdrechion i fod yn awdurdod glân a gwyrdd sy'n rhoi amgylchedd i'n preswylwyr sy'n ddeniadol ac yn apelio at y diwydiant twristiaeth.
- Ymgysylltu – Bydd ein polisïau ar gyfer y dyfodol yn annog cydweithrediad a gweithio mewn partneriaeth â'r holl randdeiliaid sydd â diddordeb. Rydym yn gweld rhyngweithiol effeithiol â'n cymunedau yn gydran hanfodol wrth sicrhau cymdeithas iach a bywiog.
- Cydraddoldeb – Sicrhau bod cyfle cyfartal gan bawb i gyfrannu at wneud Ceredigion yn lle gwell i fyw, gweithio a mwynhau.

Bydd Strategaeth TGCh a Gwasanaethau Digidol 2018-2022 yn ymateb i'r Amcanion Allweddol canlynol er mwyn sicrhau'r defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau technolegol y Cyngor:

- Trafodion Digidol
- Partneriaeth Ddigidol
- Data Clyfar
- Dylunio ar gyfer Cwsmeriaid
- Cynhwysiad Digidol
- Staff Digidol
- Technoleg Ddigidol

Bydd TGCh yn ein galluogi i ddarparu gwasanaethau busnes digidol ar draws y Cyngor a'r atebion technegol sy'n bodloni anghenion busnes.

Mae pob un o'r amcanion ar gyfer darparu Strategaeth TGCh a Gwasanaethau Digidol effeithiol wedi'u manylu gydag argymhellion wedi'u cynnwys fel camau gweithredu.

# Amcanion Allweddol

## *Trafodion Digidol*

*I ba raddau y gall dinasyddion ofyn am wasanaethau drwy wefan yr awdurdod lleol.*

### Nodau

- Trawsnewid gwasanaethau trafodion i greu sianeli digidol, hunanwasanaeth, mwy effeithlon.
- Darparu mwy o fynediad digidol dwyieithog 24/7 i wasanaethau.
- Gwella ymgysylltu â chwsmeriaid trwy gael mynediad i wybodaeth a gwasanaethau wedi'u personoli.
- Darparu gwasanaeth hollol ddwyieithog.

### Amcanion

- Gallu cael mynediad i wasanaethau'r Cyngor yn ddigidol lle y bo'n bosibl.
- Gwella gwefan y Cyngor ar gyfer pob gwasanaeth, gan ei gwneud hi'n hygyrch ar gyfer dyfeisiau symudol a chydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd lle y bo'n ofynnol.
- Darparu porthol hygyrch a hawdd i'n cwsmeriaid y gellir ei bersonoli yn ôl eu hanghenion.
- Gwella'r profiad i gwsmeriaid trwy gael proses gofyn am wasanaeth sy'n fwy effeithiol ac effeithlon ac sydd ar gael 7 diwrnod yr wythnos.
- Sicrhau bod gwybodaeth am gwsmeriaid yn cael ei phrosesu o fewn holl ofynion cyfreithiol y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.
- Targedu cael 70% o'r holl drafodion yn hollol ddigidol ar draws gwasanaethau'r Cyngor dros y 5 mlynedd nesaf.

### Camau Gweithredu

- Mapio prosesau busnes pob gwasanaeth er mwyn hwyluso trafodion digidol, lle y bo'n bosibl.
- Darparu porthol ar y we i ddefnyddwyr allu rheoli eu cais a rhyngweithio â gwasanaethau'r Cyngor yn ddigidol.
- Integreiddio'r system cwsmeriaid gyda systemau swyddfa gefn er mwyn cwblhau'r daith ddigidol gyfan ar gyfer pob cais am wasanaeth, lle y bo'n bosibl.
- Darparu gwasanaeth taliadau digidol ar draws y Cyngor i leihau'r arian a drafodir â llaw.
- Galluogi'r cwsmer i wneud cais am bob gwasanaeth trwy wefan ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg) sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

### Manteision

- Lleihau adnoddau swyddfa gefn trwy leihau ymyrryd â llaw a defnyddio prosesu digidol, gan felly creu arbedion effeithlonrwydd gwell ar gyfer

darparu gwasanaeth.
- Gwella'r pwynt cyswllt cyntaf trwy gael gwasanaeth 7 diwrnod yr wythnos
- Lleihau costau cyswllt cwsmeriaid trwy wasanaeth digidol.
- Lleihau codi ffi ar daliadau.

## *Partneriaeth Ddigidol*

*I ba raddau y caiff gwasanaethau digidol eu hymgorffori fel llinyn euraid sy'n cysylltu cynlluniau corfforaethol/strategol er mwyn hwyluso gweithio mewn partneriaeth.*

### Nodau

- Darparu gwasanaeth gwell, cydgysylltiedig, sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, gan sicrhau bod ceisiadau am wasanaethau yn ddi-dor ar draws pob sefydliad partner.
- Gweithio'n rhanbarthol ac yn genedlaethol i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau digidol ar y cyd.
- Rhannu gwybodaeth mewn modd syml a diogel â phob partner.
.

### Amcanion

- Datblygu atebion newydd sy'n integreiddio gwasanaethau ar draws ffiniau daearyddol yn hytrach na'u cyfyngu i'r ardal leol.
- Gweithio gyda busnesau bach a chanolig, y sector gwirfoddol a'r sector cymorth i achub ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau digidol.
- Ymgysylltu'n fwy effeithiol gan ddefnyddio technolegau priodol i nodi anghenion a blaenoriaethau cwsmeriaid.
- Helpu cymunedau i ddatblygu a rhoi gwasanaethau a sgiliau digidol ar waith trwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth.

#### Camau Gweithredu

- Ymgysylltu â'n trigolion a busnesau i sicrhau ein bod yn darparu, lle y bo'n bosibl, yr hyn y mae ei angen ar y cwsmer ac nid beth rydym ni'n meddwl y mae ei angen ar gwsmeriaid.
- Sicrhau bod staff yn cael yr offer sydd eu hangen arnynt i gydweithredu er mwyn gwella cynhyrchiant a gweithio mewn partneriaeth.
- Manteisio i'r eithaf ar dechnolegau newydd a ffyrdd newydd o weithio sy'n cynnwys atebion ffynhonnell agored a gwasanaeth cwmwl lle y bo'n briodol.
- Diogelu preifatrwydd trwy reoli gwybodaeth mewn modd effeithiol a chael trefniadau rhannu cadarn yn eu lle â phob partner a sefydliad allanol.
- Gweithio'n rhanbarthol ac yn genedlaethol ar gaffael meddalwedd a gwasanaethau seiliedig ar gwmwl i gael gwell gwerth am arian.

**Manteision**

- Defnyddio atebion meddalwedd rhanbarthol a chenedlaethol sy'n hwyluso rhannu gwybodaeth yn well ac yn ddiogel a gwell gwerth am arian ar gyfer darparu gwasanaeth.
- Meithrin cydlyniant wrth ddarparu gwasanaeth, gan wneud profiad y cwsmer yn un o wasanaeth di-dor ar draws pob partner perthnasol.

## *Data Clyfar*

*Casglu'r data iawn mewn ffordd hygyrch, a'i ddefnyddio'n sail ar gyfer penderfyniadau doeth. Darparu data agored y gall dinasyddion a busnesau ei ddefnyddio.*

### Nodau

- Trin gwybodaeth o ddata wedi'i ddehongli fel ased corfforaethol allweddol a fydd yn hwyluso gwneud penderfyniadau a dyrannu adnoddau yn well.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â'n rhwymedigaethau cyfreithiol o dan reoli gwybodaeth (y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, Deddf Rhyddid Gwybodaeth ac ati).
- Hyrwyddo bod yn agored a thryloyw trwy sicrhau bod gwybodaeth gyhoeddus a setiau data ar gael.

### Amcanion

- Sicrhau cydymffurfiaeth ar gyfer rhannu gwybodaeth fel rhan o ddata agored a chydymffurfio â'r rheoliadau statudol.
- Dileu dyblygu data a data anghyson er mwyn sicrhau hyder a chywirdeb gwybodaeth a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau.
- Darparu gwybodaeth ynghylch perfformiad y Cyngor i randdeiliaid perthnasol.
- Parhau i gefnogi cydweithrediad a rhannu gwasanaethau trwy gytundebau rhannu data cadarn.

**Camau Gweithredu**

- Parhau i ddatblygu a mudo'r holl ddata heb ei strwythuro i'r system gorfforaethol Rheoli Cofnodion Dogfennau Electronig a chyhoeddi gwybodaeth gyhoeddus trwy wefan y Cyngor.
- Sicrhau polisïau a phrotocolau rheoli a rhannu gwybodaeth gref a chadarn.
- Sicrhau bod ein holl systemau TGCh yn cydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.
- Parhau i ddatblygu atebion technegol er mwyn gallu rhannu gwybodaeth yn ddiogel i gefnogi rhannu gwasanaethau a chydweithrediad y sector cyhoeddus.
- Darparu gwybodaeth am berfformiad trwy ddangosfyrddau gwybodaeth.
- Cefnogi'r agenda digidol trwy sganio'r holl gofnodion papur yn eu ffynhonnell, gan felly galluogi rheoli oes electronig pob cofnod.

**Manteision**

- Data ansawdd y gellir ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau doeth am ddarparu'r gwasanaeth yn y dyfodol.
- Cydymffurfio â rheoliadau gwybodaeth a lleihau'r perygl o gamreoli gwybodaeth am ein cwsmeriaid, lleihau achosion o dorri rheoliadau data a dirwyon posibl.
- Lleihau storio papur, gan felly lleihau anghenion storio cofnodion modern ffisegol.

## *Dylunio ar gyfer y Cwsmeriaid*

*Rhoi'r dinesydd wrth wraidd y broses dylunio digidol trwy weithio'n agos â dinasyddion wrth ail-lunio'r prosesau busnes a gwasanaethau ar-lein. Defnyddio data dinasyddion yn sail ar gyfer dylunio gwasanaethau.*

### Nodau

- Darparu gwasanaeth digidol sy'n ateb anghenion defnyddwyr ac nid beth rydym ni'n meddwl y mae ei angen arnynt.
- Darparu gwasanaeth digidol sydd â'r cyfryngau cymdeithasol a thechnegau digidol cysylltiedig eraill wedi'u hymgorffori yn y dyluniad.
- Dilyn yr egwyddor, 'Dylunio unwaith, Defnyddio sawl gwaith'. Sicrhau bod tasgau gwasanaeth cyffredin yn cael eu hailddefnyddio lle y bo'n bosibl.

### Amcanion

- Defnyddio gwybodaeth o'r cyfryngau cymdeithasol a ffynonellau gwybodaeth eraill i lywio dyluniad digidol gwasanaethau.
- Ail-lunio'r broses darparu gwasanaeth gyfan i'w gwneud hi'n syml ac yn hawdd i'w darparu. Peidio â derbyn, "Mae bob amser wedi cael ei darparu fel hyn" fel ymateb wrth ail-lunio gwasanaethau digidol.
- Defnyddio'r un iaith a'r un patrymau dylunio i sicrhau bod y cwsmer yn gyfarwydd â dull cyson o ddarparu gwasanaethau.

**Camau Gweithredu**

- Ymgysylltu â dinasyddion trwy ymgynghori ar ddylunio'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt ac y byddant yn ymgysylltu â nhw ar gyfer eu hanghenion yn y dyfodol.
- Defnyddio'r holl ffynonellau data dinasyddion i flaenoriaethu trawsnewid gwasanaeth i wasanaeth digidol.
- Defnyddio offer digidol safonol i ddatblygu modiwlau darparu gwasanaeth a'u hailddefnyddio lle y bo'n bosibl.
- Datblygu offer sy'n hwyluso casglu gwybodaeth a rhyngweithio trwy bob math o gyfryngau cymdeithasol.

**Manteision**

- Dulliau darparu gwasanaeth syml a chyffredin sy'n creu gwell profiad i'r cwsmer ac yn cynyddu'r defnydd o wasanaethau digidol.

- Bydd darparu'r hyn y mae ei angen ar gwsmeriaid yn creu arbedion effeithlonrwydd trwy flaenoriaethu a thargedu cronfeydd at y gwasanaethau priodol.
- Gwella lefel bodlonrwydd cwsmeriaid a chreu arbedion effeithlonrwydd.

## Cynhwysiad Digidol

*Sicrhau y gall dinasyddion a busnesau gael mynediad i wasanaethau digidol.*

### Nodau

- Sicrhau bod trigolion a busnesau yn gallu cael mynediad i wasanaethau digidol.
- Datblygu sgiliau digidol ar gyfer plant ac oedolion.
- Gweithio gyda darparwyr technoleg i wella argaeledd digidol ar draws y sir.
- Darparu seilwaith digidol effeithiol i bob ysgol a chanolfan addysg oedolion sy'n helpu i ddarparu eu haddysg graidd.

### Amcanion

- Darparu llwyfan ar gyfer darparu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol i bob dysgwr er mwyn datblygu sgiliau digidol.
- Ymgysylltu â'n cwsmeriaid trwy'r cyfryngau cymdeithasol i annog sgyrsiau am drafodion digidol.
- Gweithio gyda darparwyr technoleg i wella cysylltedd digidol ar draws y sir.

#### Camau Gweithredu

- Darparu cymorth technegol ar gyfer prosiectau Datblygu Economaidd sy'n gwella cysylltedd symudol a chyflym iawn ar gyfer y sir.
- Parhau i wella'r seilwaith TGCh mewn ysgolion a chanolfannau addysg oedolion.
- Cefnogi darparu'r cwricwlwm digidol trwy ddatblygu gwasanaethau addysg cenedlaethol megis HWB.
- Darparu cyfrifiaduron mynediad cyhoeddus ym mhob llyfrgell a chanolfan cwsmeriaid er mwyn i bawb allu cael mynediad i wasanaethau digidol trwy'r rhyngrwyd.
- Parhau i ddarparu a chynyddu'r mannau WiFi sydd ar gael yn adeiladau'r Cyngor y gall y cyhoedd eu defnyddio.

#### Manteision

- Pob dinesydd yn gallu cael mynediad i wasanaethau digidol.
- Sicrhau cymunedau cynaliadwy trwy fynediad gwell i wasanaethau digidol.
- Sicrhau bod gan y genhedlaeth nesaf y sgiliau digidol cywir.

## *Staff Digidol*

*Darparu dyfeisiau digidol symudol a ffyrdd hyblyg o weithio er mwyn i staff allu bod mor effeithlon â phosibl. Gweithredu systemau digidol awtomatig ar gyfer prosesau swyddfa gefn a llif gwaith.*

### Nodau

- Hwyluso gweithlu digidol sy'n ymatebol ac yn hyblyg o ran y ffordd y mae'n gweithio.
- Uwch-sgilio'r gweithlu i weithio'n ddigidol.

### Amcanion

- Bydd gan staff yr offer a'r sgiliau digidol sy'n ofynnol i ddarparu gwasanaethau mewn modd effeithlon ac effeithiol.
- Parhau i ddatblygu gweithlu hyblyg a fydd yn gwella'r gwasanaeth ac yn caniatáu ar gyfer symleiddio adeiladau a swyddogaethau swyddfa gefn ymhellach.
- Cyflymu'r symudiad tuag at ddarparu gwasanaeth Digidol yn Ddiofyn lle y bo'n bosibl.

#### Camau Gweithredu

- Rhoi'r offer priodol i staff i hwyluso gweithio ystwyth/symudol lle y bydd achos busnes yn dangos prosesau busnes effeithiol ac effeithlon.
- Parhau i ail-lunio prosesau busnes a fydd yn caniatáu ar gyfer gweithio'n ddigidol ar gyfer pob proses darparu gwasanaeth.
- Buddsoddi mewn mesurau diogelwch i sicrhau diogelwch data a chydymffurfio â rheoliadau gwybodaeth.
- Parhau i ddarparu hyfforddiant sgiliau TGCh er mwyn i staff allu elwa ar weithio hyblyg/symudol.

#### Manteision

- Hyblygrwydd a symudedd yn dod ag arbedion effeithlonrwydd a mwy o gynhyrchiant trwy ffyrdd gwell o weithio.
- Sicrhau bod gan ein gweithlu gydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith sydd o fudd i'r ddwy ochr.
- Lleihau costau teithio a llety.

## *Technoleg Ddigidol*

*Creu llwyfan digidol ar gyfer darparu gwasanaethau'r Cyngor yn effeithlon naill ai drwy wneud hynny'n lleol neu drwy ddefnyddio systemau cwmwl.*

### Nodau

- Safoni technoleg seilwaith TGCh.
- Darparu Cymwysiadau Busnes naill ai'n lleol neu drwy'r gwasanaeth cwmwl sy'n gweddu orau i anghenion busnes.
- Parhau i fuddsoddi mewn Technoleg TGCh er mwyn gallu cynnig mwy o wasanaethau digidol ac arbedion effeithlonrwydd.

### Amcanion

- Darparu seilwaith TGCh sy'n ateb anghenion y gwasanaeth.
- Rhesymoli a gwneud defnydd gwell o feddalwedd Cymwysiadau ar draws nifer o feysydd gwasanaeth.
- Defnyddio meddalwedd ffynhonnell agored a safonau agored wrth ddatblygu cymwysiadau newydd.
- Sicrhau bod pob datrysiad TGCh yn briodol i'w anghenion.
- Cynnal lefel uchel o ddiogelwch ar gyfer mynediad a defnyddio data.

#### Camau Gweithredu

- Symleiddio nifer y pecynnau Meddalwedd Cymwysiadau a ddefnyddir gan y meysydd gwasanaeth.
- Cymeradwyo'r holl systemau datblygu/caffael Meddalwedd Cymwysiadau a sicrhau eu bod yn bodloni holl safonau technegol y gwasanaeth TGCh.
- Sicrhau, lle y bo'n bosibl, bod atebion darparu gwasanaeth symudol yn ddyfais annibynnol. Darparu'r gwasanaeth yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol naill ai'n lleol neu drwy'r gwasanaeth cwmwl.
- Bodloni holl safonau ISO 27001 Seiberddiogelwch a gorfodi mesurau diogelwch lleol er mwyn sicrhau cywirdeb data.

#### Manteision

- Darparu gwasanaeth TGCh effeithlon trwy safoni a'r defnydd effeithlon o feddalwedd cymwysiadau.
- Gwasanaethau TGCh yn cael eu dewis yn broffesiynol gan y tîm canolog, gan ddefnyddio dulliau sy'n cydymffurfio â rheoliadau caffael ac sy'n cynnig y gwerth gorau am arian.
- Darparu gwasanaeth TGCh cadarn trwy safoni a chael gweithlu sydd wedi'i hyfforddi'n llawn yn y meddalwedd/seilwaith a ddefnyddir gan yr Awdurdod.